WYTHNOS ELUSENNAU CYMRU | WELSH CHARITIES WEEK

Noddir gan

utility aid

# Pecyn Syniadau i Fusnesau

## GWNA DY RAN A NEWID BYWYDAU

Mae wythnos Elusennau Cymru yn tynnu sylw at waith anhygoel elusennau, mudiadau gwirfoddol, grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr yng Nghymru ac yn galw ar bobl i 'gyfrannu/gwirfoddoli/hyrwyddo'. Cynhelir yr wythnos rhwng 9 a 13 Chwefror 2026. Nod yr wythnos yw cydnabod a thynnu sylw at waith anhygoel elusennau, mudiadau gwirfoddol, grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr ledled Cymru.

Pwrpas y pecyn syniadau hwn yw helpu busnesau - mawr a bach - i ddod o hyd i ffyrdd syml, ystyrlon a hyblyg o gymryd rhan yn yr wythnos, beth bynnag yw eich capasiti neu eich man cychwyn. Gadewch i ni weithio gyda'n gilydd i ddangos pa mor anhygoel yw ein elusennau trwy dynnu sylw at y gwaith ysbrydoledig sy'n digwydd 365 diwrnod o'r flwyddyn.

Mae rhagor o wybodaeth am Wythnos Elusennau Cymru ar gael yn: https://wythnoselusennau.cymru/.

## CYMRYD RHAN

Rydyn ni'n eich annog i ddefnyddio #WythnosElusennauCymru fel esgus i ddod â'ch staff at ei gilydd i ddathlu'r rôl hanfodol y mae'r sector gwirfoddol yn ei chwarae mewn cymunedau ledled Cymru. Dyma rai syniadau ar gyfer ffyrdd y gallwch chi gymryd rhan.

**Trefnwyd gan:**

WCVA CGGC

**Noddir gan:**

utility aid

## CODI ARIAN GYDA'N GILYDD

Dewch â chydweithwyr at ei gilydd trwy ddigwyddiadau codi arian syml yn y gweithle:

- gwerthu cacennau neu gynnal boreau coffi
- diwrnodau gwisgo'n anffurfiol neu ar sail thema
- heriau noddedig (teithiau cerdded, stepiau, beicio)

Gall yr arian a godir fynd tuag at elusen o'ch dewis neu gael ei rannu rhwng sawl achos a gefnogir gan staff.

## HYRWYDDO GWIRFODDOLI Â CHYMORTH CYFLOGWYR

Wythnos Elusennau Cymru yw'r amser perffaith i:

- gyflwyno/atgoffa staff am bolisi gwirfoddoli eich cyflogwr
- annog rheolwyr i gefnogi staff i gymryd rhan
- cyflwyno/atgoffa staff am eich cynllun rhoi drwy'r gyflogres
- annog staff i edrych ar y cyfleoedd gwirfoddoli eang ar volunteering-wales.net

Mae ymgyrchoedd hyrwyddo amlwg yn aml yn cynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan.

## RHOI RHODD

Gall busnesau ddathlu'r wythnos drwy:

- roi rhodd untro i elusen yng Nghymru
- codi arian cyfatebol gan staff
- cefnogi sefydliad cymunedol lleol

Gall rhannu yn gyhoeddus pam rydych chi wedi dewis cefnogi achos penodol helpu i ysbrydoli eraill.

## RHANNU STRAEON STAFF

Un o'r ffyrdd mwyaf pwerus o gefnogi'r wythnos yw adrodd straeon.

Gwahoddwch gydweithwyr i rannu:

- elusennau y maen nhw'n gwirfoddoli gyda nhw
- achosion sy'n bwysig iddyn nhw
- pam fod rhoi yn ôl yn bwysig

Mae'r straeon hyn yn codi ymwybyddiaeth o'r sector gwirfoddol wrth ddathlu eich pobl a'u gwerthoedd. Gallwch ddefnyddio'r templed cardiau dyfyniadau sydd ar gael isod i dynnu sylw at ddyfyniadau gan eich staff ynghylch achosion sy'n agos at eu calonnau.

## DEFNYDDIWCH EICH LLAIS

Hyd yn oed heb godi arian neu wirfoddoli, gall busnesau:

- rannu cynnwys Wythnos Elusennau Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol
- tynnu sylw at elusennau lleol
- annog cwsmeriaid, cyflenwyr a phartneriaid i gymryd rhan

Mae codi ymwybyddiaeth yn helpu elusennau i gyrraedd cefnogwyr newydd.

## EI WNEUD YN WELADWY

Beth bynnag rydych chi'n dewis ei wneud:

- defnyddiwch #WythnosElusennauCymru
- rhannwch y gweithgareddau ar draws sianeli mewnol ac allanol
- dathlwch gyfranogiad ac effaith

Gyda'i gilydd, gall busnesau ledled Cymru helpu i sicrhau bod y sector gwirfoddol yn cael y gydnabyddiaeth y mae'n ei haeddu.

Byddem wrth ein bodd pe baech yn cymryd rhan eleni! Rydyn ni'n eich annog i ddefnyddio #WythnosElusennauCymru fel esgus i ddod â'ch staff a'ch gwirfoddolwyr at ei gilydd i ddathlu elusennau neu grŵpiau gwirfoddol. I gael mynediad i'r holl asedau isod gan gynnwys y poster a'r cerdyn dyfyniadau, ewch i wefan Wythnos Elusennau Cymru.

Cofiwch gydag unrhyw beth a rennir ar gyfryngau cymdeithasol, peidiwch ag anghofio defnyddio'r hashnod #WythnosElusennauCymru.

**Diolch eto am gymryd rhan yn Wythnos Elusennau Cymru a gobeithio y byddwch chi'n cael hwyl yn dathlu!**

# Lawrlwythiadau




Cefndir stori cyfryngau cymdeithasol




Poster




Cerdyn dyfyniad




Cefndir Zoom / Teams

Cefndir post sgwâr cyfryngau cymdeithasol

WYTHNOS ELUSENNAU CYMRU | WELSH CHARITIES WEEK

This pack is available in Englsih at:
welshcharitiesweek.cymru